

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANFAIR A GYNHALIWYD YN Y NEUADD GOFFA, LLANFAIR AM 7.30 O'R GLOCH
11.09.19

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Russell Sharp (Is Gadeirydd).

PRESENNOL

Cyng. Eurig Hughes (Cadeirydd), Gerallt Jones, Robert G. Owen, Dylan Hughes, Mair Thomas, David J. Roberts, Caerwyn Roberts a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

COFNODION

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Gorffennaf 17eg 2019 fel rhai cywir.

MATERION YN CODI

Cynllun Cyllideb

Adroddwyd bod £11,289.68 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £1,955.27 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn. 'Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod y gost o dorri gwair y llwybrau cyhoeddus heb gael ei wario (£858 wedi ei glustnodi hyd yma).

Llinellau Melyn ger stesion Llandanwg

Adroddodd y Clerc ar ol y cyfarfod ar y safle gyda Mr. Dylan Jones o Gyngor Gwynedd a chael map yn dangos y cynllun newydd arfaethedig, bod rhai o'r cyhoedd wedi gwrthwynebu i hyn ag eisiau cadw at yr hen gynllun. 'Roedd y Clerc, yn ei swydd fel y Cyngorydd Sirol, wedi cael trafodaethau gyda Mr. Jones a bod ef wedi datgan ei fod yn hapus i fynd yn nol i'r cynllun gwreiddiol, ond rhaid nodi os byddai gwrthwynebiad yn cael ei dderbyn ni fyddant yn gallu ail gynnig y cynllun a bod yna tri dewis, sef tynnu y cynnig yn nol, rhoi cynnig gwahanol ymlaen neu mynd a'r cynnig ymlaen i'r pwyllgor cynllunio am benderfyniad. 'Roedd yn rhaid i'r Clerc/Cyngorydd Sirol gadarnhau ei bod yn hapus i symund ymlaen gyda hyn. Adroddodd ymhellach ei bod wedi meddwl yn ddwys am gynllun y llinellau melyn hyn ag ei bod wedi dod i'r penderfyniad oherwydd na rhai sydd ddim yn byw ar hyd y ffordd hon sydd wedi gwrthwynebu ag ei bod yn teimlo os yw preswylwyr Llandanwg yn teimlo yn gryf bod angen y llinellau melyn hyn y dylem wrando arnynt. Hefyd mae tystiolaeth gan Mr. Houlston o ddamweiniau yn digwydd ar y ffordd ger Glan y Don oherwydd y gor-yrru mae'n siwr a ceir wedi parcio yna. Cytunwyd i gario ymlaen gyda'r cynllun gwreiddiol a chael llinellau melyn wedi eu gosod i lawr ar hyd y ffordd at Glan Gors.

Cyfarfod Bwrdd Hamdden Harlech ac Ardudwy

Adroddodd y Cyng. Mair Thomas bod ddim cyfarfod o'r uchod wedi cael ei gynnal ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

CEISIADAU CYNLLUNIO

Dymchwel y garej presennol a chodi ystafell gardd ar ei ben ei hun – Bryn Hoel, Frondeg, Llanfair (NP5/66/267)

Cefnogi y cais hwn.

Gosod strwythur 14 panel solar symudol yn y cwrtil – Gorwelfa, Pant yr Onnen, Llanfair (NP5/66/70Q)

Cefnogi y cais hwn.

Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt

Ddim wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Adroddodd y Trysorydd bod £3,127.74 yn y cyfrif rhedegol, a £5,510.03 yn y cyfrif cadw.

Taliadau ers y cyfarfod diwethaf

Mr. Arwel Thomas - £540.00 - torri gwair y fynwent x 2

Mrs Annwen Hughes - £380.00 – cyflog 3 mis

412..........Cadeirydd

Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf

Mr. M. Downey - £40.00 - rhent cwt yr hers (Awst)
Mr. M. Downey - £40.00 - rhent cwt yr hers (Medi)
Cyngor Gwynedd - £6,500.00 - hanner y precept

GOHEBIAETH

Cyngor Tref Ffestiniog

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost ynghyd a llythyr gan y Cyngor uchod ynglyn a gwahodd aelodau o'r Cyngor i gyfarfod ar y 3ydd o'r mis hwn i drafod sefydlu hosbis 4 gwely yn Mlaenau Ffestiniog. Adroddodd y Clerc ymhellach ei bod wedi anfon yr e-bost hwn ar llythyr ymlaen at bob Aelod yn gofyn iddynt ymateb os oedd ganddynt ddi-ddordeb mynychu y cyfarfod hwn. Adroddodd y Clerc ymhellach ei bod wedi derbyn copi o nodiadau yn dilyn y cyfarfod hwn a chytunodd y Cyng. Mair Thomas gymeryd golwg arnynt.

Parc Cenedlaethol Eryri

Wedi derbyn llythyr ychwanegol ynghyd ag agenda gan yr uchod ynglyn ar cyfarfodydd blynyddol rhwng y Parc Cenedlaethol ar Cynghorau sydd yn cael eu cynnal ar y 30ain o Fedi yn Plas y Brenin, Capel Curig, 1af o Hydref yn Plas Tan y Bwlch ag ar y 3ydd o Hydref yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi a bod bob cyfarfod yn cychwyn am 6.30 o'r gloch. Eisiau ymateb erbyn yr 20ed o Fedi. Cytunodd y Cyng. Mair Thomas adael i'r Clerc wybod os bydd yn gallu cynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod yn Plas Tan y Bwlch ar y 1af o Hydref.

Parc Cenedlaethol Eryri

Wedi derbyn copi o fapiau o'r cynigion a mapiau manwl o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 ynghyd a chopi o Ddatganiad Ysgrifenedig y Cynllun dan sylw. Cytunodd y Cyng. Martin Hughes edrych dros y ddogfen hon ar ran y Cyngor.

Un Llais Cymru

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn datgan bod, efo cytundeb Cadeirydd y pwyllor bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd o Un Llais Cymru wedi ei ohirio o Ddydd Mercher 11eg Medi tan Ddydd Mercher 16eg Hydref. Mae hyn oherwydd y nifer uchel o ymddiheuriadau a gafwyd a hefyd y siaradwr yn canslo.

UNRHYW FATER ARALL

Adroddodd y Cyng. Mair Thomas bod Mr. Arwel Thomas yn mynd i docio yn nol y goeden gelyn ar eiddew yn y fynwent ag hefyd tocio y drain yn mynwent Llandanwg unwaith fydd y safle hwn wedi ail agor i'r cyhoedd.

Dyddiad Cyfarfod Nesa

Penderfynwyd cynnal cyfarfod nesa y Cyngor ar nos Fercher Hydref 16eg 2019 am 7.00 o'r gloch

ARWYDDWYD.....Cadeirydd

DYDDIAD..... 413